



## Canllawiau ar gyfer creu coetiroedd lle mae gwiwerod coch yn bresennol Medi 2015

### 1. Cyflwyniad

Mae poblogaeth y wiwer goch wedi lleihau'n enbyd yn y blynyddoedd diwethaf ac yn y rhan fwyaf o leoedd mae wedi cael ei disodli'n llwyr gan y wiwer lwyd o ogledd America. Mae cwmpas daearyddol y wiwer goch bellach wedi cael ei gyfyngu i nifer fach o boblogaethau ynysedig, yn bennaf yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Bu lleihad tebyg yn Lloegr ac, i raddau llai, yn yr Alban.

### 2. Bioleg ac Ecoleg

Y wiwer goch yw'r unig wiwer sy'n frodorol i'r DU, ac mae'n byw mewn coetiroedd. Gall y broses gynyddol o ddarnio a diraddio coetiroedd, a cholli gwrychoedd, fod wedi arwain at ostyngiad ym mhoblogaeth gwiwerod coch yn y gorffennol (Gurnell 1987). Fodd bynnag, mae plannu coed conwydd ar ddarnau mawr o dir wedi cynnig cynefin sy'n ffafrio gwiwerod coch, ond bod y cynefinoedd hyn yn cynnal llai o wiwerod coch na'r cynefinoedd gorau.

### 3. Math o gynefinoedd

Mae diogelu poblogaethau'r wiwer goch yn dibynnu ar sicrhau nad oes gwiwerod llwyd ar y safleoedd a sicrhau cynefin addas ar gyfer cynnal gwiwerod coch.

Ar safleoedd ar y tir mawr, mae'r gwaith o warchod y wiwer goch yn canolbwyntio ar goetiroedd conwydd lle mae'n haws cadw gwiwerod llwyd allan a lle mae poblogaethau'r wiwer goch yn gallu dal eu tir yn haws. Mae'r gwaith o reoli cynefinoedd ar y safleoedd hyn yn canolbwyntio ar eu gwneud nhw mor anaddas ag sy'n bosibl i wiwerod llwyd, a chynnal poblogaeth y wiwer goch ar yr un pryd.

Ar Ynys Môn mae gwiwerod llwyd yn cael eu difa ac felly gellir rheoli cynefinoedd y wiwer goch i'w gwneud nhw mor addas ag sy'n bosibl ar ei chyfer. Yn gyffredinol, dylai perchnogion a rheolwyr coedwigoedd preifat ymgynghori â'u cymdogion coedwigaeth i lunio cynlluniau coedwigaeth sy'n ategu ei gilydd, er budd y wiwer goch ac wrth reoli'r wiwer lwyd. Dylai perchnogion a rheolwyr coedwigoedd ofyn am gyngor a chyfarwyddyd gan grwpiau lleol y wiwer goch, ac arbenigwyr, yn gynnar yn y gwaith o gynllunio coedwigaeth, a hefyd cyn cyflawni unrhyw weithred fydd yn cael effaith fawr.

#### 4. Dylai cynlluniau creu coetiroedd mewn ardaloedd a ddynodir eu bod yn bwysig i'r wiwer goch gynnwys y mesurau canlynol:

##### **Tir mawr Cymru**

Nid yw categorïau Glastir ar gyfer creu coetiroedd – 'Coetir Brodorol – Carbon' a 'Coetir Brodorol – Bioamrywiaeth' - yn briodol ar gyfer yr ardaloedd craidd a ddynodwyd ar gyfer y wiwer goch ar y tir mawr.

Ar gyfer coetir cymysg a ehangwyd, mae'r mesurau canlynol yn berthnasol:

- Ceisiwch beidio â phlannu coed llydanddail â hadau mawr megis coed derw, castanwydd, ffawydd, ynn, masarn a chyll, lle nad ydynt eisoes yn bodoli.
- Cynlluniwch y cynllun plannu er mwyn osgoi cysylltu coetiroedd sydd â'r wiwer lwyd gyda choetiroedd sydd â'r wiwer goch.
- Wrth ochr cynefinoedd presennol y wiwer goch, ac i gyd-fynd â nhw, plannwch 15% pinwydd (pinwydd yr Alban/camfrig) a 15% coed sbriws Norwy mewn patrwm o goed llydanddail â hadau bach a choed sbriws Sitka.

Mae Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru, a baratowyd gan Fforwm Gwiwerod Cymru <https://naturalresources.wales/media/2857/cynllun-diogelu-r-wiwer-goch-yng-nghymru.pdf> yn rhoi rhagor o gyngor ar reoli coetiroedd ar gyfer y wiwer goch. Dyma'r prif bwyntiau:

- Mae ardaloedd lle ceir sbriws Norwy a phob rhywogaeth o binwydd yn cynnig ffynonellau bwyd pwysig i'r wiwer goch. Dylid eu rheoli fel mannau allweddol ar gyfer y wiwer goch, gyda'r ymyrraeth leiaf posibl neu'n unol ag egwyddorion coedwigaeth gorchudd di-dor.
- Dylid osgoi darnio'r goedwig ac ynysu mannau allweddol, a dylid cadw cysylltedd coedol rhwng mannau allweddol trwy ddefnyddio gorchudd di-dor, darnau cadw hirdymor, gwarchodfeydd naturiol a chyfres o safleoedd ailstocio o wahanol oedrannau sy'n gysylltiedig â'i gilydd.
- Ar safleoedd sefydlog dylid defnyddio coedamaeth gorchudd di-dor i sicrhau cellioedd sydd mor amrywiol ag sy'n bosibl (gan osgoi defnyddio systemau unffurf).
- Yn ddelfrydol dylai 50-60% o'r goedwig fod yn gonwydd o oed cynhyrchu hadau. Mewn coedwig fasnachol a reolir trwy lwyrgwmpo, dylid datblygu strwythur fel bod tua thraean o'r coed o dan oed bwrw hadau, traean yn 'ganol oed' a thraean yn hŷn.

##### **Ynys Môn**

Mae pob categori o goetir yn addas i'w ystyried ar gyfer Ynys Môn.

- Y rhywogaethau gorau i'w plannu yw coed derw, ffawydd, castanwydd pêr, cyll, pisgwydd, criafol a phinwydd (e.e. pinwydd yr Alban, camfrig, arfor, cneuog a'r mynydd).
- Dylid defnyddio systemau gorchudd di-dor er mwyn pwysleisio amrywiaeth ofodol y gelli a sicrhau bod y canopi'n cael ei ddarnio cyn lleied ag sy'n bosibl, gyda phwyslais ar gwmpo darnau bach o dir a'u hailstocio yn hytrach na dull unffurf o deneuo.
- Gellir teneuo'n gymharol drwm yn y dyddiau cynnar, ond wrth i'r gelli ddatblygu dylai'r pwyslais fod ar deneuo'n ysgafnach ac yn llai aml. Dylid osgoi teneuo'n drwm yn hwyr gan fod canopi darniog yn anghydnaws ag anghenion y wiwer goch.

##### **Darllen pellach**

**Bryce, J., et al. (2005)** Habitat use by red and grey squirrels: Results of two recent studies and implications for management. Nodyn Gwybodaeth 076. Comisiwn Coedwigaeth, Caeredin.

**Gurnell, J.** (1987) The natural history of squirrels. Christopher Helm, Llundain.  
**Gurnell J. et al. (2007)** Developing a monitoring strategy for red squirrels (*Sciurus vulgaris*) across the UK. Adroddiad terfynol i'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur a'r People's Trust for Endangered Species. Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur (1996). UK strategy for red squirrel conservation.

**Halliwell E.C. et al (2015)** Striving for success: an evaluation of local action to conserve red squirrels (*Sciurus vulgaris*) in Wales tud.172-192 yn Shuttleworth CM, Lurz PWW, Hayward M (gol.) Red Squirrels: Ecology, Conservation & Management in Europe. European Squirrel Initiative, Woodbridge, Suffolk

**Fforwm Gwiwerod Cymru (2009)** Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru  
<https://naturalresources.wales/media/2857/cynllun-diogelu-r-wiwer-goch-yng-nghymru.pdf>

Dr. Liz Halliwell, Ecolegydd Mamaliaid - Mamaliaid Coetiroedd a Thir Amaeth, Grŵp  
Ecoleg y Tir, Cyfoeth Naturiol Cymru